

Astudiaeth Achos – Pontio i Brifysgol

Enw	Nathanial Strong
Ysgol	Ysgol Uwchradd Hawthorn
Prifysgol	Prifysgol Caerfaddon
Astudio	Gwyddorau Naturiol gyda lleoliad proffesiynol

Beth ddigwyddodd ar ôl i chi basio eich arholiad Mathemateg Bellach?

Ar ôl derbyn fy nghanlyniadau fis Awst diwethaf, cefais fy nerbyn ar fy nghwrs ym Mhrifysgol Caerfaddon, sef fy mhrifysgol dewis cyntaf. Cefais gadarnhad o fy lle gan y brifysgol ar ddiwrnod canlyniadau a symudais i mewn diwedd mis Medi. Ers hynny, mae pethau wedi bod yn brysur iawn, gyda darlithoedd a'r holl weithgareddau allgyrsiol sydd gan fywyd prifysgol i'w cynnig.

Ydych chi'n meddwl bod astudio Mathemateg Bellach drwy RhGMB Cymru wedi helpu i chi bontio i Brifysgol?

Rwy'n meddwl bod astudio Mathemateg Bellach wedi helpu i hwyluso'r pontio i'r brifysgol mewn sawl ffordd. Un o'r pethau pwysicaf a gefais o astudio Mathemateg Bellach oedd gwelliant yn fy sgiliau astudio annibynnol. Un o'r prif wahaniaethau rhwng dysgu mewn ysgol a dysgu prifysgol yw'r pwyslais trymach ar ddysgu annibynnol yn y brifysgol. Trwy astudio Mathemateg Bellach ar-lein, roedd yn rhaid i mi fod yn llawer mwy annibynnol nag oeddwn gyda fy Lefel A eraill gan mai fi oedd yr unig fyfyrwr yn fy ysgol oedd yn astudio Mathemateg Bellach. Roedd hyn wedi bod o fudd mawr i mi wrth drosglwyddo i'r brifysgol, drwy ganiatáu i mi reoli fy llwyth gwaith yn well gan fod llawer o fy amser bellach yn cael ei dreulio'n adolygu deunydd darlithoedd yn annibynnol. Fe wnaeth RhGMB hefyd fy nghyflwyno i arddull wahanol o addysgu nag oeddwn i wedi arfer ag ef yn yr ysgol. Roedd addysgu'n cael ei gyflwyno'n aml ar ffurf darlith, a helpodd fi i ddod i arfer â'r math hwn o addysgu cyn dechrau yn y brifysgol.

A oes unrhyw ffyrdd y teimlwch fod Mathemateg Bellach wedi helpu'n benodol?

Er nad ydw i'n astudio mathemateg fel gradd, roeddwn i'n dal yn awyddus i barhau i astudio mathemateg yn y brifysgol, felly rydw i'n cymryd modiwl mathemateg fel rhan o fy ngradd. Mae Mathemateg Bellach wedi helpu gyda hyn gan fy mod eisoes yn gyfarwydd â rhai o'r cysyniadau a drafodwyd yn y modiwl. Er enghraifft, fe wnaeth astudio Mathemateg Bellach fy ngwneud yn hyderus iawn wrth ymdrin â hafaliadau differol, pwnc yr wyf wedi ymdrin ag ef yn fanwl yn rhan modelu fy modiwl mathemateg. Rwyf hefyd wedi gweld Mathemateg Bellach yn ddefnyddiol mewn rhannau o fy ngradd nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â mathemateg. Er enghraifft, yng nghydran cemeg fy ngradd, edrychwyd ar gyfesurynnau pegynol ac roeddwn eisoes yn gyfarwydd â'r pwnc hwn o'm hastudiaeth o Fathemateg Bellach.

Yn gyffredinol, rwyf wedi gweld bod y sgiliau datrys problemau a meddwl yn feirniadol a ddysgais drwy astudio Mathemateg Bellach wedi bod yn berthnasol i bob maes o'm gradd.

A fyddech chi'n argymhell astudio Mathemateg Bellach a pham?

Byddwn yn bendant yn argymhell astudio Mathemateg Bellach gyda RhGMBC i unrhyw un sy'n ystyried gwneud hynny. Fel y soniais, dysgodd Mathemateg Bellach sgiliau astudio gwerthfawr i mi a wnaeth y pontio o'r ysgol i'r brifysgol yn llawer haws. Hefyd, mae'r cwrs Mathemateg Bellach yn cynnig her ddiddorol i'r rhai sydd wedi astudio mathemateg lefel A. Bydd y cysyniadau a ddysgir mewn Mathemateg Bellach yn helpu unrhyw un sydd am astudio gradd STEM ac yn aml yn rhoi cipolwg defnyddiol ar ddeunydd astudio lefel israddedig. Hoffais hefyd sut roedd y darlithwyr yn annog myfyrwyr i ddarllen o gwmpas pynciau i ehangu eu gwybodaeth o fathemateg y tu hwnt i fanyleb yr arholiad. Helpodd hyn i gynyddu fy niddordeb mewn mathemateg a gwneud i mi fod eisiau parhau i astudio mathemateg mewn rhyw ffurf yn y brifysgol. Mae astudio gyda RhGMB yn ffordd wych o astudio Mathemateg Bellach, gan fod y gefnogaeth a gefais yn ardderchog. Roedd y darlithwyr bob amser yn barod iawn i helpu pan ofynnais gwestiynau yn y sesiynau ar-lein neu drwy e-bost. Cynhaliodd RhGMB hefyd nifer o sesiynau adolygu trwy gydol y flwyddyn, a fu'n ddefnyddiol iawn.